



Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn croesawu barn ar gynigion i godi'r oedran ymddeol gorfodol i ddeiliaid swyddi barnwrol. Mae hefyd yn gwahodd barn ar gynnig a fyddai'n caniatáu i benodiadau ynadon gael eu hymestyn y tu hwnt i'r oedran ymddeol gorfodol, fel sy'n bosibl i rai barnwyr pan fydd hynny er budd y cyhoedd.
2. Cyflwynwyd ymddeol gorfodol i farnwyr yr Uchel Lys ac uwch am y tro cyntaf gan Ddeddf Pensiynau Barnwrol 1959, a oedd yn gosod oedran ymddeol o 75. Cyn hyn, gallai barnwyr barhau yn eu swydd cyhyd ag y dymument. Roedd deiliaid swyddi barnwrol eraill yn ddarostyngedig i amrywiaeth o ddarpariaethau ymddeol gwahanol.
3. Cyflwynodd Deddf Pensiynau Barnwrol ac Oedran Ymddeol 1993 "JUPRA" oedran ymddeol barnwrol safonol o 70 ar gyfer pob swydd farnwrol a restrir yn atodlen 5. Dim ond i benodiadau barnwyr a wnaed ar ôl i'r darpariaethau perthnasol gychwyn ar 31 Mawrth 1995 yr oedd y darpariaethau, a ddaeth â mwy o gysondeb i'r system ymddeol farnwrol, yn berthnasol. Roedd rhai barnwyr a benodwyd i swydd farnwrol cyn 31 Mawrth 1995 yn cadw eu dyddiad ymddeol blaenorol (uwch fel arfer). Gosodwyd oedran ymddeol gorfodol o 70 yn 2003 i ynadon ac yn 2013 i grwneriaid yng Nghymru a Lloegr, sydd wedi cysoni eu hoedran ymddeol gorfodol â'r farnwriaeth ehangach. Ers i'r oedran ymddeol gorfodol gael ei osod, mae disgwiliad oes cyfartalog wedi cynyddu ac mae llawer o bobl am barhau i weithio am gyfnod hirach nag mewn degawdau blaenorol ac yn disgwyl hynny.
4. Mae nifer o ffactorau'n berthnasol wrth ystyried yr oedran ymddeol gorfodol mwyaf priodol i ddeiliaid swyddi barnwrol. Yn bennaf ymhlith y rhain y mae sut i sicrhau adnoddau effeithiol ar gyfer llysoedd, tribiwnlysoedd a swyddogaethau barnwrol eraill; yr angen i hyrwyddo cyfle ac amrywiaeth drwy drosiant cyson o ymddeoliadau i ganiatáu ar gyfer penodiadau newydd; a sicrhau bod annibyniaeth farnwrol a hyder y cyhoedd yn y farnwriaeth yn cael eu diogelu.
5. Wrth i strwythur a gweithrediad ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd ddatblygu, felly hefyd anghenion ein barnwriaeth o ran adnoddau. Mae cael digon o farnwyr o'r math iawn yn hanfodol i sicrhau bod ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn gweithredu'n effeithiol a, thrwy hynny, sicrhau mynediad at gyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys cael y cymysgedd cywir o farnwyr cyflogedig, barnwyr y telir ffi iddynt ac ynadon lleyg – a recriwtio deiliaid swyddi barnwrol newydd ar yr adeg iawn fel bod cyn lleied â phosibl o swyddi gwag. Mae cael eich penodi'n farnwr yn dal yn ddewis deniadol i'r rhai sydd eisiau cyfrannu at y system gyfiawnder a



chael gyrfa werth chweil yn y farnwriaeth. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, bu'n fwy anodd denu digon o gyfreithwyr cymwysedig a phrofiadol i ymgeisio i'r farnwriaeth ac ni lwyddwyd i recriwtio'r niferoedd gofynnol mewn rhai ymarferiadau recriwtio. Mae hyn yr un mor wir o ran recriwtio digon o ynadon sydd eisiau gwasanaethu cyfiawnder yn eu cymunedau lleol ac sydd â'r amser i wneud hynny.

6. Fel rhan o'r ymateb i wella recriwtio a chadw staff yn y farnwriaeth, mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried codi'r oedran ymddeol gorfodol i 72 neu i 75. Mae hefyd yn cynnwys ystyried caniatáu i benodiadau ynadon gael eu hymestyn y tu hwnt i'r oedran ymddeol gorfodol pan fydd budd cyhoeddus, neu angen busnes, yn unol â'r pwerau presennol sy'n caniatáu i benodiadau barnwyr gael eu hymestyn.
7. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn, a thystiolaeth ychwanegol, ynghylch p'un a yw'r cynigion i godi'r oedran ymddeol gorfodol yn cyflawni ein hamcanion.

Rhyngweithio ag Ymgynghoriadau Eraill

8. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd tri ymgynghoriad gennym sydd â goblygiadau i drefniadau pensiwn barnwrol:
 - a. Newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Barnwrol i'r Rhai y Telir Ffi Iddynt
 - b. Rhwymedi *McCloud* – cynigion i gywiro'r gwahaniaethu a nodwyd yn achos ymglyfreitha *McCloud*;
 - c. Diwygio'r cynllun pensiwn barnwrol yn y dyfodol – cynigion ar gyfer cynllun pensiwn diwygiedig i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw barnwyr
9. Efallai y bydd ymatebwyr am ystyried yr ymgynghoriadau hyn ar yr un pryd i ddeall ble ac i ba raddau y gallai dibyniaethau posibl ddylanwadu ar eu hymateb.

Y Cynigion

10. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwneud tri chynnig:
 - Opsiwn 1:** Codi'r oedran ymddeol gorfodol i 72;
 - Opsiwn 2:** Codi'r oedran ymddeol gorfodol i 75;
 - Opsiwn 3:** Caniatáu i benodiadau ynadon gael eu hymestyn y tu hwnt i'r oedran ymddeol gorfodol yn yr un modd â barnwyr.
11. Rydym hefyd yn ceisio barn ar y polisi o ganiatáu ymestyn penodiadau barnwrol y tu hwnt i'r oedran ymddeol gorfodol (lle ceir budd cyhoeddus).